# Hysbysiad Preifatrwydd AGIC

| | |
|---|---|
| Math | Hysbysiad Preifatrwydd AGIC |
| Fersiwn | 3.0 |
| Awdur | Tîm Rheoli Busnes, Gwasanaethau Digidol a Chorfforaethol AGIC |
| Dyddiad | Medi 2024 |
| Dyddiad Adolygu | Medi 2026 |

# Cynnwys


PWY YDYN NI....4

YR HYN A WNAWN....4

- Arolygu gofal iechyd....4
- Ymchwilio....4
- Cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau cofrestredig yn barhaus....4
- Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl....4
- Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn....4

PAM RYDYM YN CASGLU AC YN PROSESU EICH DATA PERSONOL....4

- Cwynion am AGIC....5
- Ymgynghori ac Arolygon Ar-lein....5
- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun....5
- Arolygu Gwasanaethau....6
- Ymchwilio i bryderon a materion diogelu....7
- Cylchlythyrau....7
- Cofnod sefydliadol pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth y GIG a Darparwr Annibynnol..7
- Digwyddiadau, Cyfarfodydd, Lansiadau ac Ymgyngoriadau wedi'u Trefnu....8
- Adolygiadau ac Ymchwiliadau, gan gynnwys Adolygiadau o Laddiadau....8
- Cofrestru a Rheoleiddio Gwasanaethau Cofrestredig yn Barhaus....10
- Ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau cyffredinol....10
- Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl....11
- Y Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn....11
- Y Cyfryngau Cymdeithasol....12
- Cymryd Camau Gorfodi....14

GYDA PHWY RYDYM YN RHANNU EICH GWYBODAETH....14

EICH HAWLIAU O DAN REOLIAD CYFFREDINOL Y DU AR DDIOGELU DATA (GDPR)....15

MANYLION CYSWLLT......................................................................................................15

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) – Hysbysiad Preifatrwydd

## Pwy ydyn ni

Mae AGIC yn rhan o Lywodraeth Cymru. Ein rôl yw arolygu gwasanaethau'r GIG a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn nodi meysydd y mae angen eu gwella.

## Yr hyn a wnawn

**Arolygu gofal iechyd**- Rydym yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn gofal da.

**Ymchwilio** - Rydym yn cynnal adolygiadau o sefydliadau a gwasanaethau gofal iechyd mewn ymateb i bryderon sy'n codi o ddigwyddiad neu ddigwyddiadau penodol, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol ydynt a/neu pa mor aml maent yn digwydd.

**Cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau cofrestredig yn barhaus** – Rydym yn cofrestru ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

**Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl** - Rydym yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn diogelu buddiannau'r bobl y caiff eu hawliau eu cyfyngu o dan y Ddeddf honno.

**Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn** - Rydym yn gweinyddu'r Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn, sy'n diogelu hawliau cleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl sydd naill ai'n gwrthod y driniaeth a ragnodwyd gan y Clinigydd Cymeradwy neu yr ystyrir nad oes ganddynt y gallu i gydsynio.

## Pam rydym yn casglu ac yn prosesu eich data personol

Lle mae AGIC yn casglu data at ddiben penodol, byddwn yn rhoi hysbysiad preifatrwydd i chi er mwyn esbonio pam y mae angen y wybodaeth honno arnom a sut y byddwn yn ei defnyddio.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu ag AGIC ac yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni. Pan fyddwch yn cysylltu â ni am y gwaith rydym yn ei wneud, byddwn yn ymdrin â'ch data personol yn unol â'n hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd AGIC. Os bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu i ni mewn perthynas â'ch ymholiad yn cynnwys data categori arbennig, fel gwybodaeth am iechyd, crefydd neu ethnigrwydd, y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i'w phrosesu yw cydsyniad penodol, gan eich bod wedi rhoi'r wybodaeth hon o'ch gwirfodd. Fodd bynnag, byddwn fel arfer yn cadarnhau cydsyniad pan gaiff gwybodaeth ei darparu ar ran trydydd parti.

**Byddwn yn cadw eich gwybodaeth mewn amgylchedd diogel ac yn cyfyngu ar yr unigolion a all ei gweld yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'.**

## Cwynion am AGIC

Mae sawl ffordd y gallwch wneud cwyn i ni, ac ymdrinnir ag unrhyw gwynion fel rhan o brosesau corfforaethol Llywodraeth Cymru. Edrychwch ar Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru i weld sut yr ymdrinnir â'ch gwybodaeth bersonol.

## Ymgynghori ac Arolygon Ar-lein

Rydym yn casglu gwybodaeth a roddir gan aelodau o'r cyhoedd o'u gwirfodd gan ddefnyddio adnodd arolygon ar-lein a weithredir gan Smart Survey. Mae Smart Survey yn gweithredu fel prosesydd data ar gyfer AGIC a dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau y bydd yn prosesu gwybodaeth bersonol. Mae Smart Survey yn gweithredu o'r Unol Daleithiau, ond mae wedi rhoi sicrwydd ei fod yn cyrraedd safonau GDPR, fel y nodir yn ei Bolisi Preifatrwydd.

## Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun

Os byddwch yn gwneud cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gais am Fynediad at Ddata gan y Testun, ymdrinnir ag ef fel rhan o brosesau corfforaethol Llywodraeth Cymru. Edrychwch ar Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru i weld sut yr ymdrinnir â'ch gwybodaeth bersonol.

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Er mwyn cofrestru fel rheolwr cofrestredig neu unigolyn cyfrifol i ddarparu gofal iechyd annibynnol, mae'n ofynnol i ni gynnal gwiriad gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Er mwyn cwblhau'r gwiriad hwn, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol ar ran y DBS:

- enw
- dyddiad geni
- rhywedd
- man geni
- rhif cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi tystysgrif geni'r unigolyn
- rhif cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi tystysgrif mabwysiadu'r unigolyn
- rhif cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi trwydded preswylio biometrig yr unigolyn
- rhif a dyddiad cyhoeddi tystysgrif priodas/partneriaeth sifil yr unigolyn
- rhif cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi cerdyn adnabod Lluoedd EF yr unigolyn
- rhif cyfeirnod a dyddiad cyhoeddi trwydded arfau tanio'r unigolyn
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn
- rhif yswiriant gwladol,
- rhif a dyddiad cyhoeddi trwydded yrru'r unigolyn
- rhif pasbort, gan gynnwys cenedligrwydd a'r wlad gyhoeddi
- rhif fetio a gwahardd yr Alban
- cyfeiriad presennol (a chyfeiriadau blaenorol ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf)

- dogfennau ariannol a hanes cymdeithasol, e.e. cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu, cyfriflen cerdyn credyd, trwydded waith neu fisa ac ati.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- euogfarnau.

Ar ôl cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, byddwn yn dinistrio'r holl wybodaeth bersonol, ac eithrio enw'r unigolyn, rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dyddiad cyhoeddi ac unrhyw euogfarnau, ar ôl 7 mlynedd.

## Arolygu Gwasanaethau

Er mwyn cynnal arolygiadau o wasanaethau gofal iechyd, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol :

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- rhif adnabod y claf
- comisiynydd y GIG y gwasanaethau a ddarperir
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu'r staff
- cofnodion goruchwylio'r staff
- gwiriadau DBS y staff
- ffotograffau o'r staff
- gwiriadau recriwtio/cyn cyflogi'r staff, geirdaon,
- cymwysterau/cofrestriad â chyrff proffesiynol a hanes cyflogaeth.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- gwybodaeth am y claf o gofnodion meddygol, cynlluniau gofal a thriniaeth gan gynnwys diagnosis, risg, math fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- manylion cadw, os yn gymwys
- ethnigrwydd, gan gynnwys anghenion crefyddol/diwylliannol.

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am y claf er mwyn:

- olrhain effeithiolrwydd y gofal y mae claf wedi'i gael dros amser
- cyfeirio at unrhyw faterion o ran gofal aneffeithiol neu anniogel wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd.

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am y staff er mwyn:

- sicrhau bod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi'u cynnal
- gwerthuso a yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant a/neu'r datblygiad perthnasol
- cyfeirio at staff, os oes angen, wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol lle mae risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

## Ymchwilio i bryderon a materion diogelu

Er mwyn ymchwilio i bryder neu fater diogelu, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu
- gofynion hygyrchedd

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn a cham-drin
- ethnigrwydd.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n fewnol a dim ond i'r swyddogion yn yr adrannau perthnasol y mae angen iddynt gyfrannu at y broses o ymdrin â'ch pryder y caiff ei throsglwyddo. Caiff yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â phryderon ei gweinyddu a'i chadw ar systemau rheoli cofnodion diogel. Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fo risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

## Cylchlythyrau

Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti, GovDelivery, i ddarparu ein e-gylchlythyrau misol. Rydym yn casglu ystadegau ar y negeseuon e-bost a gaiff eu hagor a'r cliciau gan ddefnyddio technolegau safonol y diwydiant gan gynnwys gifs clir i'n helpu i fonitro ein e-gylchlythyr a'i wella. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar Bolisi GDPR GovDelivery. Gellir gweld ei Bolisi Preifatrwydd cyffredinol hefyd yma.

## Cofnod sefydliadol pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth y GIG a Darparwr Annibynnol

Mae'n bosibl y byddwn yn cadw'r data personol canlynol fel rhan o'n cofnodion sefydliadol ar gyfer sefydliadau'r GIG:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad

- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu.

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn a cham-drin.

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

## Digwyddiadau, Cyfarfodydd, Lansiadau ac Ymgyngoriadau wedi'u Trefnu

Er mwyn gwahodd unigolion i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ac i gymryd rhan mewn lansiadau ac ymgyngoriadau, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad e-bost
- cyfeiriad cartref/gwaith
- rhif ffôn
- gofynion deietegol
- gofynion hygyrchedd a gofynion arbennig
- dewisiadau iaith a chyfathrebu

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth a dim ond am gyfnod y lansiad/ymgynghoriad ac hyd nes y bydd y cyfarfod/digwyddiad wedi dod i ben y byddwn yn ei chadw.

## Adolygiadau ac Ymchwiliadau, gan gynnwys Adolygiadau o Laddiadau

Er mwyn ymchwilio i laddiad, marwolaeth yn y carchar ac ymgymryd ag ymchwiliadau arbennig, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- cofnodion yr heddlu
- euogfarnau
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

### Adolygiadau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys adolygiadau llywodraethu ac adolygiadau o sefydliadau ar y cyd

Er mwyn cynnal adolygiad lleol, adolygiad cenedlaethol, adolygiad llywodraethu neu adolygiad o sefydliadau ar y cyd, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol isod:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- rhif adnabod y claf
- comisiynydd y GIG y gwasanaethau a ddarperir
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu'r staff
- cofnodion goruchwylio'r staff
- gwiriadau DBS y staff
- ffotograffau o'r staff
- gwiriadau recriwtio/cyn cyflogi'r staff, geirdaon
- cymwysterau'r staff a chofrestriad â chyrff proffesiynol a hanes cyflogaeth.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a/neu gofnodion clinigol eraill, cynlluniau gofal a thriniaeth gan gynnwys diagnosis, gwybodaeth am risgiau, math o driniaeth a meddyginiaeth ac unrhyw gwynion a gofnodwyd mewn perthynas â gofal a thriniaeth
- atgyfeiriadau diogelu
- gwybodaeth am ddigwyddiadau clinigol neu ddigwyddiadau difrifol, a all gynnwys cleifion neu staff, ac a all gynnwys honiadau o gamdriniaeth
- manylion cadw (os yn gymwys)
- ethnigrwydd cleifion, gan gynnwys dewisiadau neu anghenion crefyddol/diwylliannol

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am y claf er mwyn:

- olrhain effeithiolrwydd y gofal y mae claf wedi'i gael dros amser
- gwirio bod darparwyr gofal iechyd yn cydymffurfio â rheoliadau, sy'n cynnwys cadw cofnodion priodol, cynllunio triniaeth a gofal, cydsyniad a rheoli meddyginiaethau
- deall profiadau pobl o gael gafael ar ofal iechyd a'i dderbyn
- cyfeirio at unrhyw faterion o ran gofal aneffeithiol neu anniogel wrth roi adborth i ddarparwyr gofal iechyd.

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am y staff er mwyn:

- sicrhau bod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi'u cynnal
- gwerthuso a yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant a/neu'r datblygiad perthnasol

- cyfeirio at staff, os oes angen, wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd
- deall profiadau'r staff o ran darparu gofal iechyd, a gofal cleifion yn y gwasanaethau maent yn gweithio ynddynt.

Mae ein pwerau arolygu yn ein galluogi i gyfweld ag unrhyw un sy'n gweithio i wasanaeth gofal iechyd. Rydym yn gwneud nodiadau o'r cyfweliadau hyn ac yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i lywio ein hadolygiadau ac i lunio ein barnau. Mae'n bosibl hefyd y bydd pobl sy'n gweithio i ddarparwyr gofal iechyd yn cysylltu â ni i rannu pryderon am wasanaethau, neu wybodaeth arall a allai ein helpu i gyflawni ein gwaith.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data personol a gawn yn ystod ein hadolygiadau â sefydliadau/ awdurdodau eraill neu gyrff rheoleiddio eraill, os byddwn o'r farn bod hynny'n briodol wrth gyflawni ein rôl, neu er mwyn helpu'r cyrff hynny i gyflawni eu rolau. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chyrff proffesiynol eraill, pan fo risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

## Cofrestru a Rheoleiddio Gwasanaethau Cofrestredig yn Barhaus

Er mwyn cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol ar gyfer y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad cartref (Rheolwr Cofrestredig yn unig)
- cyfeiriad busnes
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu
- gwybodaeth ariannol (manylion cyfrif banc)
- geirdaon personol/proffesiynol

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- hanesion meddygol (Cyfeiriadau meddygol)
- euogfarnau

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 7 mlynedd ar ôl dadgofrestru.

## Ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau cyffredinol

Er mwyn ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau cyffredinol, rydym yn cofnodi'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn
- crynodeb o'r ohebiaeth
- dewisiadau iaith
- gofynion hygyrchedd

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth a byddwn yn ei chadw am 12 mis at ddibenion archwilio.

## Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl

Rydym yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn diogelu buddiannau'r bobl y caiff eu hawliau eu cyfyngu o dan y Ddeddf honno. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- cyfeiriad cartref y claf
- cyfeiriad y man cadw
- dewisiadau iaith a chyfathrebu'r claf
- enw cyswllt y clinigydd
- manylion cyswllt y clinigydd, gan gynnwys rhif ffôn a dewisiadau iaith a chyfathrebu
- yr awdurdod sy'n cadw'r claf

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- cofnodion meddygol, diagnosis, cynlluniau gofal a thriniaeth (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol e.e. cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)
- ethnigrwydd

Dim ond gyda'r tîm clinigol sy'n gofalu am y claf ac sydd eisoes yn gallu gweld y wybodaeth hon yn gyfreithiol y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 25 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

## Y Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn

Rydym yn gweinyddu'r Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn, sy'n diogelu hawliau cleifion a gaiff eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf

- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- cyfeiriad cartref y claf
- cyfeiriad y man cadw
- dewisiadau iaith a chyfathrebu'r claf
- enw cyswllt y clinigydd
- manylion cyswllt y clinigydd, gan gynnwys rhif ffôn a dewisiadau iaith a chyfathrebu
- yr awdurdod sy'n cadw'r claf

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- cofnodion meddygol, diagnosis, cynlluniau gofal a thriniaeth (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol e.e. cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)
- ethnigrwydd

Dim ond gyda'r tîm clinigol sy'n gofalu am y claf ac sydd eisoes yn gallu gweld y wybodaeth hon yn gyfreithiol y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 8 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf neu'r ymweliad diwethaf.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Gellir gweld gwybodaeth am ein llwyfannau ar y Cyfryngau Cymdeithasol a sut rydym yn defnyddio eich data yma: https://www.agic.org.uk/polisi-preifatrwydd.

## Hysbysiadau Statudol o Farwolaeth, Absenoldeb Heb Awdurdod, Anafiadau Difrifol, Brigiad o Glefydau Heintus, Honiad o Gamymddwyn ac Amddifadu o Ryddid

Er mwyn ymchwilio i hysbysiadau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu'r staff
- cofnodion goruchwylio'r staff
- gwiriadau DBS y staff
- ffotograffau o'r staff
- gwiriadau recriwtio/cyn cyflogi'r staff
- geirdaon
- cymwysterau/cofrestriad â chyrff proffesiynol a hanes cyflogaeth.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- cofnodion yr heddlu
- euogfarnau
- hanesion meddygol (cyfeiriadau meddygol) cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- gwybodaeth am y claf o gofnodion meddygol, cynlluniau gofal a thriniaeth gan gynnwys diagnosis, risg, math fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn a cham-drin
- datganiadau dioddefwyr

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

## Hysbysiad Statudol o Ddigwyddiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R)

Rydym yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017 er mwyn sicrhau y caiff cleifion yng Nghymru eu diogelu wrth gael triniaeth lle mae angen iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Byddwn yn adolygu digwyddiadau y rhoddir gwybod i ni amdanynt lle bydd cleifion o bosibl wedi dod i gysylltiad â lefelau uwch o ymbelydredd ïoneiddio nag y dylent fod wedi dod i gysylltiad â nhw.

Er mwyn ymchwilio i hysbysiadau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- enwau'r staff
- rolau'r staff
- cofnodion arfarnu'r staff
- cofnod goruchwylio'r staff
- gwiriadau DBS y staff
- ffotograffau o'r staff
- gwiriadau recriwtio/cyn cyflogi'r staff
- geirdaon
- cymwysterau/cofrestriad â chyrff proffesiynol a hanes cyflogaeth

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- hanesion meddygol (cyfeiriadau meddygol)
- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth

- gwybodaeth am y claf o gofnodion meddygol, cynlluniau gofal a thriniaeth gan gynnwys diagnosis, risg, math fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn a cham-drin
- datganiadau dioddefwyr

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

### Cymryd Camau Gorfodi

Fel rhan o'r broses o gymryd unrhyw gamau gorfodi lle y bo'n gymwys / yn ofynnol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- nodiadau a recordiadau PACE (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol)
- datganiadau dioddefwyr
- tystiolaeth a gafwyd drwy ddulliau cudd

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen ddiwethaf.

## Gyda phwy rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Mae gan AGIC nifer o gytundebau rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill rydym yn gweithio'n agos gyda nhw. Mae'r cytundebau hyn yn nodi'r rhesymeg dros rannu gwybodaeth er mwyn helpu'r sefydliadau i gyflawni eu hamcanion statudol cyffredin ac er mwyn rhoi ffocws i'w priod weithgareddau. Maent yn helpu i greu rhaglenni gwaith sy'n ategu ei gilydd, gan sicrhau bod prosesau clir ar waith i rannu gwybodaeth, risgiau a phryderon. Lle bydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau/sefydliadau perthnasol fel yr heddlu a byrddau diogelu'r awdurdod lleol. Dim ond fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn y bydd AGIC yn rhannu eich data personol.

Gallwch weld y cytundebau rhannu gwybodaeth drwy ddewis y ddolen uchod neu drwy edrych ar y dogfennau ar ein gwefan:

https://www.agic.org.uk/ein-memoranda-o-gyd-ddealltwriaeth-gyda-sefydliadau-eraill

## Eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR)

Mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- Cael gafael ar y data personol y mae AGIC yn eu prosesu amdanoch
- Gofyn i AGIC gywiro gwallau yn y data hynny
- Yr hawl (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu i brosesu'r data
- Yr hawl i'ch gwybodaeth gael ei dileu
- Cofnodi cwyn gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

## Manylion Cyswllt

Cysylltwch â'r canlynol i gael rhagor o wybodaeth am y data y mae AGIC yn eu cadw ac yn eu defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):
Y Perchennog Asedau Gwybodaeth
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: data.protectionofficer@llyw.cymru

I gael cyngor annibynnol ar y GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
WILMSLOW
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk